**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LG/0267/20

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

31 Ionawr 2020

Annwyl Mike,

Diolch i chi am Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran newid hinsawdd, 2019-20. Atodir ymateb ar ran Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor. Os ydych yn teimlo y byddai'n fanteisiol i'r Pwyllgor drafod unrhyw un o'r materion hyn ag Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, byddaf yn fwy na pharod i wneud y cais ar eich rhan.

Cofion,

**Lesley Griffiths AC**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran newid hinsawdd, 2019-20**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn croesawu adroddiad y Pwyllgor a'r ymgysylltu yn ymwneud â'r agenda hon, yn enwedig yn ystod y flwyddyn bwysig hon yn arwain at Gynhadledd y Partïon, y Cenhedloedd Unedig (COP26) ar y newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion, ond nid yw'n gallu derbyn un argymhelliad. Amlinellir rhagor o wybodaeth fanwl isod.

**Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi, cyn gynted â phosibl, y cyngor y mae wedi'i gomisiynu gan PDUNH ar ei dyhead i gyrraedd sero-net erbyn 2050.**

Ymateb: Derbyn

Bydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn cyhoeddi'r cyngor ar ei wefan ym mis Medi 2020. Byddwn yn darparu ac yn cyhoeddi dolen i'r wefan.

Gan fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i gynyddu targed 2050 Cymru i 95%, rwyf wedi gofyn i'r Pwyllgor am gyngor ar y newidiadau sydd eu hangen i'r targedau interim presennol ar gyfer 2030 a 2040, a'r ail gyllideb garbon (2021-25). Hefyd, rwyf wedi gofyn am gyngor ar bennu lefel y drydedd gyllideb garbon (2026-30) ac ar uchafswm yr unedau carbon y gellir eu priodoli i gyfrif allyriadau net Cymru yn yr ail gyllideb garbon.

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i gyflwyno targed sero-net yn y dyfodol hefyd. Felly, rwyf wedi gofyn i'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd am gyngor ar y dewisiadau sydd ar gael i Gymru er mwyn cyflawni'r nod hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim.

**Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog roi manylion am yr amserlen ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddiwygio targedau 2050 a thargedau interim.**

Ymateb: Derbyn

Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn galw am dystiolaeth i lywio ei gyngor tan 5 Chwefror, ac rwy'n disgwyl derbyn y cyngor ym mis Medi. Yn amodol ar yr amserlen, rwy'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ym mis Hydref cyn cyfarfod llawn ym mis Tachwedd. Rydym yn trefnu hyn cyn Cynhadledd y Partïon, y Cenhedloedd Unedig (COP26) eleni, sy'n cael ei chynnal yn Glasgow, er mwyn sicrhau bod Cymru yn cefnogi'r neges hon. Rydym yn barod i chwarae ein rhan a galw ar eraill i ymuno â ni a deddfu ar gyfer yr uchelgais hon.

Goblygiadau ariannol: Dim.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori â'r Cynulliad, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar gyllidebau carbon a rheoliadau cysylltiedig yn y dyfodol. Ni ddylid defnyddio diffyg gofyniad penodol i ymgynghori yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel rheswm dros beidio â gwneud hynny.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn deall bod y Senedd am sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses o ddatblygu'r rheoliadau ategol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Er nad yw'r

Ddeddf yn cynnwys gofyniad penodol, rydym wedi ehangu ein dull o ymgysylltu. Mae'r Senedd, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gallu dylanwadu ar y broses o bennu cyllidebau carbon trwy gyfrannu at gais y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd am dystiolaeth, sy'n llywio ei gyngor i Weinidogion Cymru. Rydym wedi cefnogi galwadau am dystiolaeth yn 2017 ac eto yn 2020, a oedd yn cynnwys digwyddiadau yn y Gogledd a'r De i roi cyfle i randdeiliaid gymryd rhan yn y broses. Mae'r galwadau hyn yn bwysig gan fod angen sylfaen dystiolaeth gadarn er mwyn pennu ein cyllidebau carbon. Gan ei bod yn ofynnol i ni ofyn am gyngor y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd cyn pennu cyllideb garbon, a chyn belled â bod y Pwyllgor yn fodlon cynnal galwadau am dystiolaeth i lywio'r cyngor hwn, byddwn yn parhau i gynnal digwyddiadau a hyrwyddo'r alwad i sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid o Gymru yn cael eu clywed. Yn ogystal, mae'r broses gyflwyno trwy'r Senedd yn darparu proses graffu ategol.

Goblygiadau ariannol: Bydd y costau sy'n gysylltiedig â chefnogi galwadau'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd am dystiolaeth yn dod o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i PDUNH wahanu data ar ostwng allyriadau Cymru yn ôl meysydd datganoledig a meysydd heb eu datganoli. Dylai PDUNH fabwysiadu'r dull gweithredu hwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.**

Ymateb: Derbyn

Mae fy swyddogion wedi codi'r mater hwn ag Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd a byddant yn parhau i drafod sut y gellid gweithredu'r argymhelliad. Mae'n bosibl y bydd yn gymharol hawdd i'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ddarparu dadansoddiad ansoddol, ond mae dadansoddiad meintiol yn debygol o fod yn fwy o her o lawer o ystyried natur y setliad datganoli a'r anhawster o briodoli unrhyw newid mewn allyriadau i bolisi penodol.

Nododd Adroddiad Cynnydd yr Alban 2019 gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ba Lywodraeth sydd â'r prif gyfrifoldeb am ei gamau gweithredu tymor byr a thymor canolig a argymhellir ym mhob sector allyriadau. Byddaf yn gofyn i'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ddarparu dadansoddiad cyfatebol yn ei Adroddiad cyntaf ar Gynnydd Cymru ym mis Medi 2020.

Goblygiadau ariannol: Gallai'r dadansoddiad ychwanegol gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd arwain at gostau, a bydd modd cadarnhau hynny ar ôl trafod â'r Pwyllgor. Bydd unrhyw gostau yn dod o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 6 mis ar sut y bydd yn mynd i'r afael â'r datgysylltiad yn yr amserlenni ar gyfer cyllidebau carbon ac adroddiadau ynghylch a fyddant yn cael eu bodloni. Dylai ddatblygu ei dull gweithredu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn hapus i amlinellu'r dull gweithredu ar gyfer amseriad y cylch cyllidebau carbon o fewn y chwe mis nesaf ac egluro'r rheswm am ei gynllunio felly. Nid yw rhanddeiliaid wedi codi'r mater hwn gyda ni yn ddiweddar, a thrafodwyd amseriad y cylch cyllidebau carbon ychydig flynyddoedd yn ôl pan aeth Bil yr Amgylchedd (Cymru) trwy broses y Senedd. Dylai'r cyllidebau carbon gael eu pennu ar sail gofynion y wyddoniaeth, cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ac ystyriaethau eraill sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. Ni ddylent gael eu pennu ar sail a yw ein perfformiad hyd yma yn golygu y byddant yn cael eu cyflawni, os ydym am gyflawni'r nod o osgoi lefelau peryglus o newid yn yr hinsawdd.

Goblygiadau ariannol: Dim.

**Argymhelliad 6. Dylai Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru esbonio a dangos yn glir sut y bydd dyraniadau cyllid yn cefnogi'r flaenoriaeth datgarboneiddio.**

Ymateb: Derbyn

Cyllideb ddrafft 2020-21 oedd y gyllideb gyntaf ers i ni ddatgan argyfwng hinsawdd, ac rydym wedi dyrannu pecyn cyllid cyfalaf newydd gwerth £140 miliwn er mwyn cefnogi ein huchelgais ar gyfer datgarboneiddio a diogelu ein hamgylchedd. Hefyd, mae'r gyllideb yn diogelu ein buddsoddiadau parhaus a sylweddol i gefnogi ein cynllun cyflawni carbon isel. Mae naratif ategol y gyllideb yn egluro sut rydym wedi gwneud hyn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/2020-2021-naratif-y-gyllideb-ddrafft.pdf

Fel yr amlinellodd Gweinidogion fel rhan o'r gwaith craffu ar Gyllideb ddrafft 2020-21, rydym yn cydnabod bod asesu cyfraniad uniongyrchol gwariant penodol at ddatgarboneiddio yn broses anodd mewn sawl achos. Fodd bynnag, fel y nodwyd hefyd, os oes modd amcangyfrif effaith buddsoddiad ar allyriadau carbon mewn ffordd ystyrlon, mae'n briodol gwneud asesiad.

Goblygiadau ariannol: Dim.

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru wneud darn o waith ar wahân, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, i asesu sut y gellid gwella ei hymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r cyhoedd mewn pryd ar gyfer datblygu'r iteriad nesaf o'i chynllun datgarboneiddio.**

Ymateb: Derbyn

Mae'r Prif Weinidog wedi amlinellu bod angen i'n cynllun cyflawni carbon isel nesaf fod yn Gynllun Cymru Gyfan. Mae her newid yn yr hinsawdd yn gyfrifoldeb i bob Gweinidog. O ganlyniad, nid dim ond fi sy'n gyfrifol am ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac mae'r broses hon ar waith ledled y Llywodraeth. Er enghraifft, mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ymgysylltu â'r Trydydd Sector a'r Sector Gwirfoddol trwy ei Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ynghyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r sector busnes yn ystyried datgarboneiddio trwy Gyngor Datblygu'r Economi, ac mae'r Sector Cyhoeddus yn trafod y mater yn eu cyfarfodydd gan weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fel rhan o'r broses ymgysylltu, rydym yn gofyn i randdeiliaid a ydynt eisiau cymryd rhan, ac rydym yn ceisio canfod y dull gorau o ymgysylltu. O safbwynt ymgysylltu'n ehangach â'r cyhoedd, rydym yn gweithio gyda'r Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewid Cymdeithasol, a byddwn yn cynnal cynhadledd newid hinsawdd flynyddol i ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd.

Goblygiadau ariannol: Bydd y costau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dod o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r iteriad nesaf o'i chynllun datgarboneiddio a dylai gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno.**

Ymateb: Gwrthod

Rydym yn deall bod y Pwyllgor am sicrhau bod rhanddeiliaid yn helpu i ddatblygu'r cynllun nesaf, sydd i fod i gael ei gyhoeddi yn 2021. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gofio am y darpariaethau amseru yn y Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Llywodraeth newydd

gyhoeddi cynllun cyflawni. Y Llywodraeth ar y pryd fydd yn gyfrifol am benderfynu ar unrhyw ymgynghoriad, gan y bydd angen cyhoeddi pob cynllun newydd o fewn misoedd cyntaf Llywodraeth newydd.

Mae'r Prif Weinidog wedi dweud yn glir bod angen i'r cynllun nesaf fod yn gynllun Cymru Gyfan. Rydym wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid eisoes, a'r llynedd cynhaliwyd Cynhadledd Newid Hinsawdd Cymru am y tro cyntaf. Mynychwyd y gynhadledd gan dros 300 o bobl, a gofynnwyd i sefydliadau ymrwymo i weithredu gyda ni. Wrth ddatblygu'r cynllun, byddwn yn datblygu'r gwaith hwn gyda rhanddeiliaid ledled y Llywodraeth trwy fforymau rhanddeiliaid allweddol fel Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a Chyngor Datblygu'r Economi. Rydym yn cynnwys pobl ifanc hefyd, a byddwn yn cynnal cynhadledd ar eu cyfer fis nesaf.

Goblygiadau ariannol: Dim.

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru wneud datganiad yn esbonio effaith y cynnydd yn y targed lleihau allyriadau 2050, o 80 y cant i 95 y cant, ar ei hamcanestyniadau a'i pholisïau. Dylai wneud hynny pan fydd yn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i newid y targedau.**

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o'r ddeddfwriaeth, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ehangach i gefnogi'r broses, gan esbonio ein rhagdybiaethau a'r dystiolaeth sy'n datblygu ac yn dod i'r amlwg. Byddwn yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â chynyddu targed 2050 wrth gyflwyno'r is-ddeddfwriaeth i'r Senedd yn ddiweddarach eleni.

Goblygiadau ariannol: Dim.

**Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad o gostau, manteision ac effaith pob polisi a chynnig ar ddatgarboneiddio sydd yn yr iteriad nesaf o'i chynllun datgarboneiddio.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae disgwyl eisoes i adrannau ystyried cost ac effaith pob un o'r ymyraethau fel rhan o'r broses datblygu polisi.

Fodd bynnag, amcan y cynllun carbon isel yw egluro sut y byddwn yn cyflawni ein cyllideb garbon, yn ogystal â rhoi gwybodaeth i randdeiliaid ehangach am sut rydym yn gweithredu. Mae'r cynllun yn coladu camau gweithredu ar draws y llywodraeth, ac ni ddylai fod yn ddull o goladu asesiadau effaith pob cam gweithredu.

Nid yw'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i ni gyhoeddi asesiad o gost ac effaith pob ymyrraeth. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa yn yr Alban ac ar lefel y DU. Fodd bynnag, byddwn yn cwblhau arfarniad ehangach o sut mae'r cynllun yn cefnogi'r nodau llesiant.

Goblygiadau ariannol: Dim.

**Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dull, megis asesiad effaith carbon, i adrodd i'r Cynulliad am benderfyniadau polisi a fydd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn allbwn carbon.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn deall bod y Senedd yn awyddus i sicrhau tryloywder ynglŷn â sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi gofyn i swyddogion ystyried effaith cynigion polisi ar allyriadau nwyon tŷ gwydr fel rhan o'r broses datblygu polisi er mwyn darparu gwybodaeth i Weinidogion wrth wneud penderfyniadau. Ar hyn o bryd, dylai casgliadau swyddogion gael eu cofnodi mewn asesiadau effaith integredig ynghyd â'r polisi, y strategaeth neu'r ddeddfwriaeth berthnasol. Cwblhawyd asesiad effaith carbon ar gyfer rhai penderfyniadau polisi pwysig, fel y penderfyniad yn ymwneud â'r M4.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r dull o asesu effaith, gan ganolbwyntio ar wella dealltwriaeth o effaith ein polisïau ar gymunedau a'u hamgylcheddau. Bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn haf 2020, a byddwn yn ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion. Ar ôl hynny, bydd camau datblygu, profi a gweithredu dull newydd yn cael eu rhoi ar waith.

Goblygiadau ariannol: Dim.

**Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad na fydd yn symud allyriadau dramor. Dylai ymrwymo y bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn flynyddol am unrhyw allyrru ar y môr a wneir gan Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus neu awdurdodau lleol.**

Ymateb: Derbyn

Nid ydym eisiau lleihau allyriadau yng Nghymru trwy symud allyriadau dramor, yn enwedig mewn achosion lle mae Cymru yn mynd ati wedyn i fewnforio'r nwyddau a greodd yr allyriadau hynny.

Er nad oes gennym yr holl bwerau i'w hatal, rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o ddeall y newidiadau mewn allyriadau cynhyrchu a defnyddio. Dyna pam rydym wedi cynnwys darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd i fesur allyriadau defnydd Cymru, gan gydnabod bod angen i ni ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio'r broses, neu leihau ein defnydd o gynhyrchion carbon uchel.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd glir ar Weinidogion Cymru i adrodd ar berfformiad yn erbyn y nod hwn ar gyfer cyfnod pob cyllideb. Dywed bod yn rhaid i Weinidogion Cymru amcangyfrif cyfanswm nwyon tŷ gwydr, boed yng Nghymru neu'n rhywle arall, y gellir eu priodoli'n rhesymol i'r defnydd o nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru yn ystod y cyfnod cyllideb garbon pum mlynedd.

Wrth adrodd ar allyriadau defnyddwyr Cymru, rydym yn cyflwyno dull effeithiol o adrodd ar unrhyw gynnydd yn ein defnydd byd-eang yn y dyfodol, gan roi cyfle i ni asesu i ba raddau y gallai symud allyriadau dramor fod wedi cyfrannu at ein hymdrechion i leihau allyriadau yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol: Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig ag adrodd i'r Senedd. Efallai mai symud allyriadau dramor yw'r dull mwyaf cost effeithiol o gyrraedd targedau allyriadau Cymru, ond ni fyddai'n arwain at leihau allyriadau byd-eang, sef y cymhelliad sy'n sail i ddeddfwriaeth Cymru.

**Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru drafod a oes gwerth sicrhau bod y data modelu a gynhyrchir drwy ddefnyddio offeryn Cyfrifiannell 2050 Cymru ar gael dan drefniadau ffynhonnell agored.**

Ymateb: Derbyn

Mae ein tystiolaeth yn esblygu ac yn aeddfedu'n gyson. Ers datblygu ein set flaenorol o reoliadau, mae ein tystiolaeth wedi'i diweddaru, ac o ganlyniad rydym yn diweddaru ein Cyfrifiannell 2050 er mwyn sicrhau ei bod yn gallu darparu tystiolaeth gadarn i helpu i ddatblygu'r cynllun cyflawni nesaf. Fel rhan o'r broses hon, rydym yn bwriadu sicrhau bod y gyfrifiannell ar gael i'r cyhoedd. Yn wir, rydym yn credu y bydd y gyfrifiannell yn werthfawr iawn os yw'n datblygu arbenigedd ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach, ac rydym yn awyddus i chwilio am gyngor i helpu i ddatblygu'r dull modelu. Yn ogystal, rydym yn teimlo bod y model yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at gyfathrebu'r agenda ddatgarboneiddio yng Nghymru. Er ein bod yn credu y bydd manteision yn deillio o sicrhau bod yr adnodd yn gwbl dryloyw ac ar gael i'r cyhoedd, nid yw'r amserlen ar gyfer datblygu rhyngwyneb defnyddwyr wedi'i phenderfynu eto.

Goblygiadau ariannol: Bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod yr adnodd ar gael i'r cyhoedd yn dod o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei dogfen sy'n cynnwys manylion am y camau y mae wedi'u cymryd ers datgan argyfwng hinsawdd.**

Ymateb: Derbyn

Goblygiadau ariannol: Dim.